"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 9fed Hydref, 2023**, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Michael Strain (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Iwan J. Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Efan Thomas, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

57. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

58. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

59. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed HYDREF, 2023**

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 11eg Medi, 2023.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Michael Strain ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(a) Eitem 45 Cadarnhau Cofnodion (b) Eitem (23)29 – Model o Reolau Sefydlog 2023 Cymru**

Atgoffwyd yr aelodau y byddai angen adolygu'r rheolau sefydlog cyn Cyfarfod Blynyddol nesaf ym mis Mai 2024.

**(b) Eitem 46 - Ceisiadau Cynllunio**

**(i) cymal 2(a) – Bryn Teg Bach, Bryncroes**

Adroddwyd na dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r sylwadau anfonwyd at yr Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd, ynglyn a'r cais uchod.

**(ii) cymal 2(c) – datblygiad arfaethedig ar dir Cae Capel, Botwnnog**

Adroddwyd na dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Gwmni Owen Devenport Cyf. i'r pwyntiau godwyd.

(c) **Eitem 47 – Mynwent Llandegwnning**

Adroddwyd fod y Swyddog Llwybrau i ffwrdd o'i waith hyd 10fed Hydref, felly nid oedd unrhyw wybodaeth pellach ynglyn a Llwybr Ty'n y Big, Botwnnog.

(ch) **Eitem 48 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

Nid oedd atebiad wedi ei dderbyn gan berchennog Tan-y-Ffordd, Pengroeslon.

Derbyniwyd ymateb gan yr Adran Ffyrdd i'r un broblem ar gyffordd Groeslon Siop Lwyd fel a ganlyn:

"Cyffordd Trewen, Botwnnog

Mae ticed gwaith wedi'i greu i glirio unrhyw ordyfiant ar dir y Cyngor sydd yn gallu amharu ar weledіad o'r gyffordd yma. Bydd y gwaith yma'n cael sylw pan fydd adnoddau ar gael.

Cyffordd Siop Lwyd, Bryncroes
Mae holl gyffyrdd ar ffyrdd dosbarth un a dau yn cael toriad ychwanegol gan y contractwr allanol, lle mae'n bosib gwneud hyn. Mae ochr Tan y Ffordd efo clawdd isel felly dim ond un toriad ar wyneb y clawdd sydd yn bosib. Ochr arall i'r gyffordd mae yno ymyl ffordd lle mae'n bosibl rhoi dau doriad.
Mae cais am ddrych newydd yn fater i'r Uned Traffig."
Yna derbyniwyd atebiad gan yr Uned Traffig fel a ganlyn:
"Mae gosod drych yn ddibynnol o be sydd yn achosi diffyg gwelededd ar y gyffordd. Os oes wal gynnal, eiddo neu boncyn yn amharu, fe allwn edrych i leoli drych os yw'n effeithiol. Os gordyfiant, gwrych neu ffens breifat sydd yn achosi'r broblem felly ni fyddwn yn gosod drych ond edrych ar camau i hwyluso'r gwelededd drwy gorfodaeth."
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.
(d) **Eitem 49 – Awdurdod i dalu**
**Adroddodd** y Clarc iddi. mewn cysylltiad â'r Cynghorydd Carys H. Evans, anfon llythyr o apêl at HMRC. Gofynnodd yn y cyswllt hwn a oedd angen cyflwyno datganiad yn fisol o hyn ymlaen gan mai sail yr apêl oedd mai yn chwarterol 'roedd y datganiadau wedi eu hanfon yn y gorffennol ac nid yn fisol ac na fu unrhyw gais i law i'w newid. Cytunodd yr aelodau i lynu at anfon datganiadau chwarterol hyd nes derbynir canlyniad yr apêl.
**(dd) Eitem 51 – Plannu coed cynhenid yn yr AHNE**
**Cyflwynwyd** atebiad Bleddyn Jones, Swyddog AHNE Llyn, yn hysbysu y byddai'n cadw sylwadau'r Cyngor mewn côf pan yn ystyried y prosiect plannu coed cynhenid.
(e) **Eitem 53 – Lloches Bws a.y.**
**Ystyriwyd** gwneud cais am arian am hysbysfyrddau, lloches bws ym Motwnnog a.y.
**Penderfynwyd**
(1) Symud ymlaen i brynu'r hysbysfyrddau 'nawr (un i Ganolfan Bryncroes, un i Neuadd Sarn a'r llall i Ganolfan Congl Meinciau, Botwnnog) – 3 hysbysfwrdd (AF58/6AF) am bris o £251.16 yr un + TAW + cludiant o £155.15 yn gwneud y cyfanswm o £1,090.36.
(2) Derbyn pris Tyddyn Sachau am blanhigion a chompost ar gyfer y pum potyn blodau yn yr ardal - £40 y potyn, cyfanswm o £200.00.
Yn y cyswllt hwn addawodd y rhai a ganlyn blannu'r blodau:
Botwnnog – Y Cynghorydd Carys H. Evans
Sarn – Y Cynghorwyr Elin Hughes a Carys E. Williams
Botwnnog – Y Cynghorwyr Michael Strain, Glyn Roberts a Siôn Williams
Ger Y Fantol – Y Cynghorydd Iwan J. Williams a'r Clarc
Hefyd gwnaed ymholiadau ynglyn a chael slabiau i'w rhoi o dan y potiau a chyflwynodd y Clarc bris oedd wedi ei dderbyn. Addawodd y Cynghorydd Iwan J. Williams gael gair a chyn Reolwr Huws Gray er ceisio cael pris gwell.
(3) Peidio symud ymlaen i archebu lloches bws ger y Feddygfa ym Motwnnog am eleni ond fod y cyllid neilltuwyd i'w gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf yn y bwriad o symud ymlaen gyda'r prosiect yr adeg hynny.

60. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Nid oedd unrhyw gais i law.**

61. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen i'r Adran Priffyrdd:
Angen barbio i lawr o Ty Fair, Bryncroes am Tyn Coed, Sarn
Lon Llety, Bryncreos i lawr am Fferm Mellteyrn, Sarn – angen sylw. Y fordd yma yn ased i'r plwyf ac yn hafan i gerddwyr. Tynnu sylw hefyd fod cryn ddefnydd ar y ffordd yma.

Angen barbio y ffordd gefn o Ty Newydd Sarn sydd yn dod allan rhwng Mellteyrn Ganol ag Argraig.
Tynnu sylw unwaith yn rhagor at y perygl sy'n bodoli ym Mhenygroeslon gan anfon copi hefyd i Brif Arolygydd yr Heddlu ym Mhorthmadog.

62. **AWDURDOD I DALU**
Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.
**Anfonwyd** copi o'r sefyllfa ariannol i bob aelod gyda'r rhaglen ac 'roedd yr aelodau yn hapus gyda'r sefyllfa bresennol. Rhoddodd y Clarc amcan syniad y byddai angen gwario oddeutu £4,500 eleni eto ar y gwaith barbio; planhigion; slabiau; cyfraniadau ariannol; cyflog a.y.

63. **PWYLLGOR ARDAL ARFON/DWYFOR O UN LLAIS CYMRU – 20fed MEDI, 2023**
Yn anffodus ni fu'n bosibl i'r cynrychiolwyr fynychu'r cyfarfod.

64. **PARTBERUAETH NATUR GWYNEDD**
**Cyflwynwyd** e-bost an Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth Partneriaeth Natur Leol (copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen).
Dywedodd y Swyddog fod Partneriaeth Natur Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian cyfalaf er mwyn gwella amgylchedd Gwynedd – 'er budd Natur.' Enghreifftiau o'r hyn y gellir cael cyllid ar ei gyfer oedd:
Creu dolydd blodau cynhenid
Coedlannau cynhenid, a.y.
**Penderfynwyd** cadw'r wybodaeth mewn côf.

65. **SIOP WATERLOO, SARN MELLTEYRN**
Gyda thristwch y daeth y newydd fod Siop Waterloo, Sarn Mellteyrn, wedi cau.
**Penderfynwyd** anfon gair o ddiolch at Bryn a Maria, perchenogion y siop, am eu gwasanaeth dros nifer maith o wasanaeth a hynny yn arbennig yn ystod cyfnod y pandemig.

66. **DATBLYGIAD TAI YM MOTWNNOG**
**Rhannwyd** gwybodaeth fod cyfarfod wedi ei drefnu yng Nghongl Meinciau, Botwnnog, ar 18fed Hydref, 2023 rhwng 1 a 4 y.p. "Pwrpas y digwyddiad yw i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i berchnogi ac adeiladu eiddo yn y cymunedau."

67. **PECYN PERLLAN GYMUNEDOL**
**Rhannwyd** gwybodaeth am y pecyn uchod a sut i wneud cais drwy wefan Cadwch Gymu'n Daclus – www.keepwalestidy.cymru/natur Y dyddiad cau oedd 27ain Hydref.

68. **CAE CHWARAE SARN**
**Diolchwyd** i'r Cadeirydd am farbio'r parc chwarae.
**Gan** nad oes gan y Cyngor unrhyw gyfrifoldeb am y cae chwarae anogwyd y Pwyllgor perthnasol i anfon cais i fewn erbyn cyfarfod mis Ionawr i geisio am gyfraniad ariannol tuag at gynnal a chadw'r maes chwarae.

69. **ARWYDD SARN MELLTEYRN**
**Addawodd** y Cynghorydd Glyn Roberts beintio'r awydd.